

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) - DYDD MERCHER, 25 MAWRTH 2026

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 25 MAWRTH 2026 10:00

Presennol

Y Cyngorydd R Williams – Cadeirydd

C Davies

S Easterbrook

Presennol – O Bell

H T Bennett

Swyddogion:

Samuel Pitchford
Kirsty Evans
Michael Pitman
Oscar Roberts

Cyfreithiwr - Tîm Ymglyfreitha
Rheolwr Tîm Trwyddedu
Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro – Pwyllgorau

81. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	25 Mawrth 2026

82. Datganiadau o fuddiant

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) - DYDD MERCHER, 25 MAWRTH 2026

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	25 Mawrth 2026

83. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfodydd Is-bwyllgor Trwyddedu B dyddiedig 15 Gorffennaf 2025 a 3 Chwefror 2026 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	25 Mawrth 2026

84. Rhoi Trwydded Cerbyd Hacni

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Reolwr y Tîm Trwyddedu, oedd gofyn i'r Is-bwyllgor benderfynu ar gais am drwydded cerbyd hacni oedd y tu allan i ganllawiau polisi oedran y Pwyllgor Trwyddedu. Roedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod. Gofynnodd yr ymgeisydd am drwydded cerbyd hacni ar gyfer ei gerbyd trydan hybrid Ford Mondeo. Roedd y cerbyd yn 6 mlynedd a 6 mis oed, oedd yn hŷn na'r hyn a ganiateir gan bolisi'r Is-bwyllgor. Gofynnodd yr ymgeisydd, er gwaethaf oed y cerbyd, i'r is-bwyllgor wyro oddi wrth ei bolisi yn yr achos hwn ac ystyried caniatáu trwydded cerbyd. Yna gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod er mwyn archwilio'r cerbyd yn y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr. Sylwasant fod y milltiredd bellach yn 116,533. Sylwodd yr Aelodau hefyd fod y Cerbyd mewn cyflwr rhagorol. Esboniodd y perchennog fod yr heddlu wedi atafaelu'r Renault am dystiolaeth ym mis Mehefin 2025, yn dilyn damwain ffordd angheuol. Ni chafodd y Renault ei ddifrodi yn y ddamwain; roedd person meddw wedi bod yn gorwedd ar y ffordd oddeutu hanner nos a chafodd ei daro i lawr. Cyflwynodd y perchennog gais i adnewyddu cyn i'r drwydded ddod i ben. Ond ni allai ddod â'r Renault i'w archwilio oherwydd yr atafaelu. PENDERFYNODD: yr is-bwyllgor yn unfrydol i wyro oddi wrth ei bolisi a chaniatáu'r cais yn amodol
------------------------	---

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) - DYDD MERCHER, 25 MAWRTH 2026

	ar ofynion safonol i archwilio am y rhesymau canlynol: a. Roedd y Renault mewn cyflwr rhagorol. b. Gwnaed cais adnewyddu ar amser; dim ond amgylchiadau y tu allan i reolaeth y gweithredwr a ataliodd archwilio'r cerbyd. c. Mae'r ymgeisydd yn weithredwr busnes tacsï profiadol a gellir dibynnu arno i gydymffurfio â'r gofynion archwilio ar gyfer cerbydau hŷn. Am y rhesymau hyn, penderfynodd y pwyllgor yn unfrydol i ganiatáu'r cais yn amodol ar ei ofynion archwilio arferol.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	25 Mawrth 2026

85. Materion Brys

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	25 Mawrth 2026

86. Gwahardd y Cyhoedd

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD</u>: Na ddylid cyhoeddi'r eitemau canlynol am eu bod yn cynnwys gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 ac/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y cafodd ei diwygio gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Ar ôl cymhwyso prawf lles y cyhoedd, penderfynodd yr Is-bwyllgor, yn unol â'r Ddeddf, y dylid ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gan wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth
Dyddiad gwneud y penderfyniad	25 Mawrth 2026

87. Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD</u> : Bod cofnodion eithriedig cyfarfodydd Is-bwyllgor Trwyddedu B dyddiedig 15 Gorffennaf 2025 a 3 Chwefror 2026 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	25 Mawrth 2026

88. Gwrandawriad Disgyblu

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD</u> : roedd y penderfyniad hwn wedi'i eithrio
Dyddiad gwneud y penderfyniad	25 Mawrth 2026

89. Gwrandawriad Disgyblu

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD</u> : roedd y penderfyniad hwn wedi'i eithrio
Dyddiad gwneud y penderfyniad	25 Mawrth 2026

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 11:10